| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **22 Mawrth 2018** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Chludiant Cynaliadwy / Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Perygl Llifogydd** |
| **Teitl:** | **Archwiliad i'r Llifogydd a ddigwyddodd ar 19 Gorffennaf 2017** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Ar 19 Gorffennaf 2017, arweiniodd cyfnod o law trwm at i ddŵr wyneb lifo i mewn i nifer o eiddo preswyl a masnachol yng ngogledd y sir. Mae swyddogion y cyngor, yn ogystal â swyddogion o Gyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru, eisoes wedi cynnal ymchwiliadau i'r llifogydd er mwyn deall y rhesymau dros pam ddigwyddodd y llifogydd, y tebygolrwydd ohono'n digwydd eto ac i asesu p'un a ellir rhoi'r mesurau ar waith i leihau llifogydd yn y dyfodol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ymchwilio i unrhyw ddigwyddiadau mewn perthynas â llifogydd yn y sir a chyhoeddi adroddiad o ganfyddiadau'r ymchwiliad yn unol â hynny. Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno Adran 19 o'r adroddiad ymchwilio llifogydd a'i ganfyddiadau i aelodau'r Pwyllgor a cheisio eu barn a'u sylwadau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Fod y Pwyllgor yn ystyried p'un a yw'r Cyngor angen gweithredu neu ddiwygio eu harferion gwaith gyda'r bwriad o liniaru perygl llifogydd yn y sir yn y dyfodol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 A dweud y gwir, roedd y llifogydd a effeithiwyd ar Sir Ddinbych ar 19 Gorffennaf 2017 yn ddigwyddiad anghyffredin iawn. Yn ôl adroddiadau a ddarparwyd eisoes gan Gyfoeth Naturiol Cymru a Met Office, y cyfnod dychwelyd ar gyfer y glaw oedd oddeutu 1 mewn 50 mlynedd. Mae hyn yn golygu bod 1 cyfle mewn 50 y bydd digwyddiad tebyg yn digwydd eto mewn unrhyw flwyddyn galendr.

4.2 Dechreuodd swyddogion o'r Cyngor gasglu gwybodaeth ynglŷn â maint yr ardal wnaeth ddioddef llifogydd a nifer yr eiddo a effeithiwyd arnynt, yn ogystal â tharddiad posibl y llifddwr wrth i'r digwyddiad ddigwydd. Fodd bynnag, roedd y llifogydd yn cwmpasu ardal ddaearyddol eang a oedd yn golygu y cymerwyd sawl wythnos i ddeall

gwir ddifrifoldeb y sefyllfa o ran yr effaith a gafwyd ar y cymunedau. Roedd eiddo preswyl a masnachol yn Llanelwy, Rhuddlan, y Rhyl a Phrestatyn dan ddŵr.

4.3 Y ffordd orau o ddisgrifio'r llifogydd a ddigwyddodd yw fel digwyddiad glawog, hynny yw, o ganlyniad i ddŵr wyneb yn hytrach nag ei fod yn deillio o gwrs dŵr. Mae Rhuddlan, y Rhyl a Phrestatyn yn defnyddio carthffosydd cyfun sydd yn cludo carthffosiaeth yn ogystal â dŵr wyneb. Cyfrifoldeb Dŵr Cymru yw'r carthffosydd hyn ac mae nifer ohonynt wedi methu ag ymdopi gyda chyfaint y llifoedd, a oedd yn fwy na'r capasiti y cawsant eu cynllunio ar ei gyfer. Mae'r gwaith ymchwilio y mae Dŵr Cymru wedi ei wneud ers y digwyddiad yn dangos mai rhwystrau yn y peipiau a phroblemau gyda'r orsaf bwmpio waethygodd y llifogydd, ond nid dyna oedd gwraidd y broblem.

4.4 Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith ymchwilio llifogydd yn cynnwys cydweithio'n agos gyda Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, gan adeiladu ar y perthnasau gweithio agos a ddatblygwyd dros y degawd diwethaf.

4.5 Mae'r Cyngor wedi sicrhau arian grant gan Lywodraeth Cymru i gynnal astudiaeth o'r draeniad yn Ffordd Derwen, y Rhyl, ac mae'n gweithio ar y cyd â Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i ganfod p'un a allai gwneud gwelliannau i sut mae Rhyl Cut a Prestatyn Gutter yn cael eu rheoli, yn ogystal â draeniau a charthffosydd cyfagos gyda'r gobaith o leihau perygl llifogydd. Mae'r ddau ddarn o waith yn mynd rhagddynt a dylent fod yn barod erbyn mis Medi 2018.

4.6 Codwyd pryderon yn flaenorol gan Aelodau ynghylch effaith y datblygiadau newydd ar berygl llifogydd o ganlyniad i ddŵr wyneb. Er bod y polisi cynllunio i fod i ddiogelu datblygiadau newydd a datblygiadau presennol rhag llifogydd, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod lle i wella ac mae wedi penderfynu rhoi Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr ar waith, gyda'r gobaith y bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn dod yn Gyrff Awdurdodedig (SAB's) Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) ym mis Mai 2018. O ganlyniad i hyn, bydd y rhan fwyaf o'r datblygiadau newydd angen i'r system ddraenio gael ei chymeradwyo cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Disgwylir y bydd hyn yn arwain at ddatblygwyr yn blaenoriaethu system ddraenio gynaliadwy sydd wedi'i datblygu'n dda, yn hytrach nag ei 'slotio i mewn' i'r broses datblygu fel sydd wedi digwydd cymaint o weithiau yn y gorffennol. Hefyd, efallai bydd cyfleoedd i'r Cyngor gymeradwyo a mabwysiadu'r broses o ôl-osod SuDS sydd ar waith mewn cymunedau presennol, a ddylai arwain at leihau perygl llifogydd. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Dŵr Cymru i ddod o hyd i leoliadau yn Sir Ddinbych lle byddai hyn yn addas.

4.7 Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu rhyddhau Rhagolygon Hinsawdd y DU 2018 (UKCP18) ym mis Tachwedd 2018. Mae'n debygol y bydd hyn yn atgyfnerthu'r ddealltwriaeth bresennol lle bydd digwyddiadau o fwrw glaw trwm, fel yr un a brofwyd ym mis Gorffennaf y llynedd, yn digwydd yn fwy aml. Mae gan y Cyngor gyfle, drwy weithio â phartneriaid sy'n rheoli perygl llifogydd, i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy reoli perygl llifogydd yn effeithiol.

4.8 Mae adroddiad Adran 19 y Cyngor wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Un o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 yw darparu amgylchedd gwarchodedig a deniadol sy'n cefnogi llesiant a ffyniant economaidd. Un o'r mesurau a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol i alluogi hyn yw lleihau nifer yr eiddo lle mae perygl llifogydd yn Sir Ddinbych. Mae'r adroddiad ymchwilio llifogydd wedi amlygu cyfleoedd i helpu i gyflawni'r mesur hwn, gyda rhai ohonynt yn cynnwys gweithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r gost o gyflawni gwaith ymchwilio llifogydd i'r Cyngor yn rhan o'r gyllideb refeniw presennol, er gwaethaf astudiaeth system ddraeniad Ffordd Derwen lle mae 85% ohono'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru (cyfraniad y Cyngor - £3,750). Nid yw costau'r SAB wedi'u penderfynu eto, fodd bynnag, y gobaith yw y bydd y ffioedd sy'n daladwy i'r datblygwyr yn golygu bod y gweithgaredd yn ariannu ei hun.

## 7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Mae'r ymchwiliad i'r llifogydd wedi cynnwys trafodaethau, cyfarfodydd a chyfnewid gohebiaethau gyda Chynghorwyr Sir ac aelodau o'r cymunedau a oedd wedi dioddef llifogydd. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda swyddogion o Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

## 8. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i ymchwilio i ddigwyddiadau o lifogydd yn y sir a dyletswydd oblygedig dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr i wella ei ddealltwriaeth o berygl llifogydd. Os yw'r Cyngor yn methu â gwneud hyn, gall wneud niwed i'w enw da a bydd y cymunedau sydd wedi dioddef llifogydd yn parhau i fod mewn perygl.

## 9. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae gan y Cyngor bwerau mewn perthynas â pherygl llifogydd a materion sy'n ymwneud â draenio dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010) a'r Ddeddf Draenio Tir (1991).

Mae Adran 7.2.3 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi y gall Archwilio "ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar ardal neu drigolion y Cyngor".

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Perygl Llifogydd
Rhif ffôn: 01824 706901